

Cyngor Cymuned Llanelian (243)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Mai 14, 2013 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Helen Woodcock Glenys Jones
 T Elfyn Hughes Gordon Hayes
 Thomas D Jones Helen Hughes

Ymddiheuriadau: Cyng. Richard Jones, Cyng Wil Hughes

1 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Yn is-gadeirydd llynedd, mae Helen Woodcock yn symyd i'r Gadair. Penderfynnwyd penodi Is-gadeirydd yn y cyfarfod nesaf, nad oedd unrhyw un oedd yn bresennol am gymryd y swydd.

2 Ethol Is-bwyllgorau

2.1 Is-bwyllgor Cae Chwarae – Gordon Hayes, Hefina Williams, Helen Woodcock

2.2 Is-bwyllgor y Fynwent – Hefina Williams, David Herbert, TD Jones, Helen Hughes

2.3 Cynrychiolydd Pwyllgor y Neuadd – Helen Hughes i barhau a'r rol.

2.4 Cynrychiolydd Llywodraethwyr yr Ysgol – Glenys Jones i barhau a'r rol.

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir, Cynnig Glenys Jones, Eilio Helen Hughes

4 Materion yn codi o'r Cofnodion

4.1 Etholiadau Sirol – cadarnhau mai y Cynghorwyr Aled Morris Jones, Richard Jones a Wil Hughes sy'n cynrychioli ardal Twrcelyn yn dilyn yr etholiadau.

4.2 Archwiliad Fewnol – mae'r archwiliad fewnol bellach wedi ei gwblhau, bydd adroddiad i'w gwblhau ar gyfer Hacker Young yn y cyfarfod nesaf.

4.3 Blwch ffon – mae'r clerc wedi cysylltu a BT ar y we ac ar y ffon er mwyn cwyno am gyflwr y ffon, ond nid oes dim wedi ei wneud hyd yn hyn. Trafodwyd y posibilrwydd o dynnu'r blwch oddi-yno a gosod ffon pwrpasol at ddefnydd brys ger y maes parcio. Y Clerc i gysylltu a John Owen i weld a fyddai hyn yn bosib. CET

4.4 Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu eto a John Owen i ofyn am ddiweddaraiad am y gylchfan yn Llanelian. CET

5 Cod Ymddygiad

Dosbarthwyd rheolau a chod ymddygiad y Cyngor Sir eisioes er mwyn rhoi cyfle i'r Aelodau gael eu darllen. Derbynnwyd hwy gan bawb oedd yn bresennol. Mae y rhan fwyaf o'r Aelodau eisioes wedi arwyddo eu datganiadau yn ymrwymo i'r cod ymddygiad.

6 Unrhyw Faterion Eraill

6.1 Cyd-ethol Cynghorwyr newydd – mae dau set wag ar y Cyngor yn dilyn yr etholiadau. Bydd hysbyseb yn mynd i'r bwrdd hysbysebu yn dilyn y cyfarfod yma yn gofyn i unrhywun a diddordeb gysylltu a'r Clerc cyn Mai 28. Bydd cyfle wedyn i drafod y ceisiadau a chyd-ethol yn y cyfarfod nesaf. CET

6.2 Cafwyd llythyr gan y Cyngor Sir yn amlinellu canlyniadau eu ymgynghoriad ar ofal cymdeithasol i oedolion yn y sir.

6.3 Mae yngynghoriad ar hyn o bryd ar Gynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Mon (Copi ar gael i unrhywun a diddordeb)

6.4 Mae teledu wedi ei adael ar y groeslon ger Graig Lwyd. Y Clerc i gysylltu a'r Cyngor Sir i'w nol. CET

7 Dyddiadau y cyfarfodydd nesaf

Bydd y cyfarfodydd nesaf fel y ganlyn –

- Is-bwyllgor Cae Chwarae 21/5/2013 (7 o'r gloch)
- Is-bwyllgor y Fynwent 21/5/2012 (7.30yh)
- Cyngor Llawn mis Mehefin 11/6/2013
- Cyngor Gorffennaf 9/7/2013
- Cyngor Medi 3/9/2013

8 Cyflwyniad gan Celtic Array (Fferm Wynt Rhiannon)

Cafwyd cyflwyniad gan Stuart Barnes a Louise Rich ar ran Celtic Array, y cwmni sy'n datblygu Fferm Wynt Rhiannon. Roedd hefyd cynrychiolwyr o'r Grid Genedlaethol yn bresennol.

Dosbarthwyd pecynnau gwybodaeth i bawb oedd yn bresennol. Bydd mwy o wybodaeth ar gael yn y diwrnod agored fydd yn cymryd lle ym Mhenysarn Mai 28, 2013.

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol, ac i dim Celtic Array am eu cyflwyniad. Bu'r cyfarfod orffen am 8.30yh.

CET05/2013